

## DATGANIAD PREIFATRWYDD

### 1. Gwybodaeth Gyffredinol ac Egwyddorion

- a) Pan fyddwch chi'n llenwi ffurflen Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y Panel Diogelwch Cydenwadol mi fyddwch chi'n rhoi gwybodaeth bersonol i ni. Pwrpas y datganiad yma ydi esbonio i chi sut byddwn ni'n edrych ar ôl y wybodaeth honno ac yn ei defnyddio.
- b) Mae'r Panel a'r [tri enwad](#) ffurfiodd y panel ac sy'n ei ddefnyddio wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â [Rheolau Cyffredinol Ddiogelu Data](#) (GDPR).
- c) Byddwn ni'n trin eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r **Egwyddorion** canlynol- p'un a ydi'r wybodaeth ar bapur neu ar ffurf electronig.
  - Ein bod ni'n casglu'r wybodaeth i bwrpas penodol a ddim yn ei defnyddio i unrhyw bwrpas arall.
  - Ein bod ni'n casglu'n unig yr hyn sydd arnom ni ei angen a dim mwy.
  - Ein bod ni'n gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir a dim ond yn ei gadw tra bod ei angen i bwrpasau diogelu.
  - Bod y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi wedi eu seilio ar wybodaeth dibynnol a diweddar.
  - Bod eich gwybodaeth wedi ei warchod rhag ei ddatgelu heb awdurdod neu'n ddamweiniol.

### 2. Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Byddwn ni'n anfon eich ffurflen DBS at y DBS i'w phrosesu. I wybod sut mae'r DBS yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ewch i: [www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policy](http://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policy).

### 3. Pa wybodaeth fyddwn ni'n ei gasglu gennych chi?

- a) Byddwn ni'n casglu ac yn cadw eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn ac hefyd enw'r capel, eglwys neu gyflogwr sydd wedi gofyn i chi gael gwiriad DBS. Fyddwn ni ddim yn cadw eich rhif Yswiriant Gwladol, rhif eich pasport na rhif eich trwydded yrru.
- b) Mae'r wybodaeth fydd gennym ni'n wybodaeth byddwch chi wedi ei roi i ni wrth lenwi'r ffurflen DBS ac (os oes angen) wrth ateb cwestiynau pellach gennym ni neu ar y Ffurflen Wirio. Gall eich capel, eglwys neu gyflogwr rhoi eich enw a'ch manylion cyswllt i ni er mwyn i ni allu anfon y wybodaeth berthnasol a'r ffurflenni atoch chi.
- c) Pan fyddwch chi'n derbyn eich tystysgrif DBS gwreiddiol oddi wrth y DBS byddwn ni'n gofyn i gael ei gweld hi. Fyddwn ni ddim yn ei chadw hi nac yn ei chopio hi ond yn hytrach yn ei hanfon yn ôl atoch chi'n syth, onibai bod angen asesu gwybodaeth bellach. Os oes angen gwneud hynny, byddwn ni'n gadael i chi wybod beth sy'n digwydd, a hynny drwy gydol y proses.
- d) Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth dan glo mewn coffr neu gwpwrdd diogel (â'u goriadau wedi eu cadw mewn lle diogel) neu ar gyfrifiadur sydd â'i system wedi ei warchod gan gyfrinair. Mae mynediad i'ch gwybodaeth wedi ei reoli'n llym.

### 4. Pam casglu'r wybodaeth a pha ddefnydd fyddwn ni'n ei wneud ohoni?

- a) Byddwn ni'n casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth er mwyn cynnal y Gwiriad DBS. Mae hwn yn budd cyfreithlon sy'n galluogi eich capel, eglwys neu gyflogwr i ateb y gofynion diogelu sydd ynglŷn ag apwyntio pobl - gwirfoddol a chyflogedig - i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Yn ogystal mae'n ofyn cyfreithiol i sicrhau nad ydi neb sy'n ymwneud â gweithgaredd reoleiddir wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant neu bobl agored i niwed.

- b) Byddwn ni'n hysbysu eich capel, eglwys neu gyflogwr eich bod chi wedi cwblhau'r proses DBS. Wrth wneud hynny fyddwn ni ond yn cyfeirio at eich enw a'ch swyddogaeth.
- c) Os oes unrhyw wybodaeth ar eich tystysgrif ynghylch euogfarn neu rybudd, byddwn ni'n cynnal asesiad risg a bydd Panel Cyfrinachol yn trafod y manylion (heb eu cysylltu nhw â'ch enw chi) i benderfynu os oes risg i ddiogelwch. Does dim trefn o benderfyniadau awtomatig. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn [yma](#)  
<[http://www.paneldiogelwch.org.uk/images/Sut\\_i\\_apelio\\_diweddiariad\\_Hydref\\_2016.pdf](http://www.paneldiogelwch.org.uk/images/Sut_i_apelio_diweddiariad_Hydref_2016.pdf)>.
- d) Fyddwn i ddim yn datgelu'r wybodaeth ar eich tystysgrif i'ch capel, eglwys neu gyflogwr oni bai bod angen gwneud hynny yn sgîl y proses gafodd ei ddisgrifio yn c) er mwyn diogelu plant a phobl agored i niwed. Byddwn ni'n eich hysbysu chi o hyn cyn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol.
- e) Byddwn ni'n cadw crynodeb o'r wybodaeth mewn lle diogel, a hynny er mwyn caniatáu asesu cywir yn y dyfodol, adnewyddu tystysgrifau DBS, fel tystiolaeth gefnogol i geisiadau swydd, ac ar gyfer monitro cytundebau ymddygiad.
- f) Fyddwn ni byth yn rhoi data sy'n ymwneud ag ymgeiswyr DBS neu ddefnyddwyr gwasanaeth i'w defnyddio mewn marchnata gan unrhyw sefydliad arall.
- g) Mae gennych chi hawl i gael copi o'r wybodaeth fyddwn ni'n ei chadw amdanoch chi (ac eithrio'r manylion hynny sy'n rhaid i ni eu dal yn ôl oherwydd eu bod yn ymwneud â phobl eraill, neu pan fyddwn ni wedi ein gorchymyn i beidio â'i rhyddhau am resymau cyfreithiol e.e. yn ystod ymchwiliad gan yr heddlu).
- h) Os hoffech chi gael copi o'r wybodaeth, ysgrifennwch at y Panel yn y cyfeiriad isod. Byddwn yn eich ateb chi cyn gynted â bo modd, a dim hwyrach nag un mis calendr ar ôl y diwrnod cyrhaeddodd eich cais.

## 5. Am faint o amser fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

- a) Byddwn ni'n cadw rhif a dyddiad eich tystysgrif DBS gyda'r wybodaeth soniwyd amdano yn 3a) fel cofnod o'r ffaith fod gennych chi dystysgrif i weithio gyda phobl agored i niwed, neu i fod â chyfrifoldeb dros eu gweithgareddau. Byddwn ni hefyd yn hwyluso'r proses o adnewyddu tystysgrifau DBS - er mwyn sicrhau bod pawb yn parhau'n addas i weithio neu gwirfoddoli i weithio gyda phobl agored i niwed (yn unol â'n [polisi diogelu](#)).
- b) Unwaith y byddwn ni'n cael gwybod nad ydych chi'n gweithio gyda'r capel, eglwys neu gyflogwr, byddwn ni'n tynnu eich manylion o'r cofnodion. Mae posib y byddwn ni'n eu harchifo mewn lle diogel, os gwelwn ni bod eu hangen nhw i bwrpasau diogelu yn y dyfodol.

## 6. Lle mae cael mwy o wybodaeth a sut mae gwneud cwyn?

- a) Yn y Deyrnas Gyfunol mae materion yn ymwneud â phreifatrwydd a gwarchod gwybodaeth neu ddata dan reolaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO). Mae gwybodaeth ar bob agwedd o'r ddeddf Gwarchod Data (y GDPR) i'w chael ar wefan y Swyddfa. Mae hawl gennych chi i wneud cwyn i'r ICO am ein defnydd ni o'ch gwybodaeth. Rydyn ni'n gobeithio, serch hynny, y byddech chi'n rhoi cynnig ar godi'r mater gyda ni'n gyntaf. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw broblem allai fod wedi codi.
- b) Y Rheolwr Data yn ein hachos ni ydi'r Panel Diogelwch Cydenwadol. Oherwydd maint a natur busnes y Panel does dim gofyn i ni benodi Swyddog Data, ond mae Julie Edwards, Swyddog Diogelu y Panel, a Meirion Morris, fel Ysgrifennydd Cwmni ar gael i drafod pryderon neu gwynion ynglŷn â'n triniaeth o'ch gwybodaeth bersonol. Dyma ein manylion cyswllt :

**Panel Diogelwch Cydenwadol, 1 Vale Parc, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych LL16 5TA** ☎+ ☎  
01745 817584 ☎ [post@paneldiogelwch.org.uk](mailto:post@paneldiogelwch.org.uk) <<mailto:post@paneldiogelwch.org.uk>>